
# Helpwch i amddiffyn eich plentyn rhag y ffliw y gaeaf hwn



**Y gaeaf hwn mae paediatregwyr yn gweld cyfraddau uchel o achosion o ffliw mewn plant a phobl ifanc. Mae'n bwysig cofio nad annwyd drwg yn unig yw ffliw, gall wneud i blant deimlo'n wael iawn ac arwain at gymhlethdodau difrifol.**

**Bob gaeaf yn y DU, mae miloedd o blant, hyd yn oed y rhai heb gyflyrau iechyd sylfaenol, angen gofal ysbyty oherwydd y ffliw.**

## Mae symptomau cyffredin yn cynnwys:

- Tymheredd uchel
- Cyhyrau a chymalau poenus
- Blinder ofnadwy
- Symptomau tebyg i annwyd fel peswch a dolur gwddf
- Mewn rhai achosion, gall ffliw arwain at broblemau mwy difrifol fel niwmonia neu orfod mynd i'r ysbyty.

## Beth allwch chi ei wneud?

Y ffordd orau o helpu i amddiffyn eich plentyn yw eu brechu rhag y ffliw. Mae'r brechlyn ffliw yn ddiogel, yn effeithiol, ac yn cael ei gynnig am ddim gan y GIG. Nid yn unig mae'n helpu i amddiffyn eich plentyn rhag mynd yn ddifrifol sâl ond mae hefyd yn helpu i leihau'r tebygolrwydd o ledaenu'r salwch i eraill a allai fod yn fwy agored i niwed, fel neiniau a theidiau, babanod, a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor.

## Pwy all gael y brechlyn ffliw?

Mae GIG Cymru yn cynnig brechlyn ffliw i blant am ddim bob hydref neu ddechrau'r gaeaf i:

- Bob plentyn 2 a 3 oed ar 31 Awst 2025
- Plant oedran ysgol o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 11
- Plant rhwng 6 mis a 17 oed sydd â chyflyrau iechyd hirdymor penodol

Gall y rhan fwyaf o blant sy'n gymwys i gael brechlyn ffliw gael chwistrell yn y trwyn, sy'n gyflym, yn ddi-boen ac yn effeithiol. Fodd bynnag, efallai y bydd plant a phobl ifanc yn y grwpiau canlynol yn cael cynnig pigiad y brechlyn ffliw yn lle hynny:

- Eu bod o dan 2 oed
- Bod ganddynt gyflyrau meddygol penodol, eu bod ar driniaeth benodol, yn feichiog neu fod ganddynt alergeddau i'r brechlyn neu'r cynhwysion
- Bod ganddynt system imiwnedd wan neu'n byw gyda rhywun sydd â system imiwnedd wan
- Bod ganddynt frest sy'n wichlyd ar y diwrnod neu yn y tri diwrnod blaenorol neu fod ganddynt symptomau asthma diweddar
- Nid ydynt yn derbyn y defnydd o gelatin moch mewn cynhyrchion meddygol

Os nad ydych yn siŵr pa frechlyn sy'n addas ar gyfer eich plentyn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu nyrs ysgol.

## Sut bydd eich plentyn yn cael cynnig y brechlyn?

- Mae manylion am drefniadau lleol ar gael ar wefannau'r byrddau iechyd. Yn gyffredinol: Gall plant rhwng 2 a 3 oed gael eu brechlyn gan eu meddyg teulu ac mewn rhai ardaloedd gall plant 3 oed gael eu brechlyn mewn meithrinfa.
- Bydd plant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ysgol fel arfer yn cael eu brechlyn ffliw yn yr ysgol gan nyrsys ysgol. Bydd rhieni yn cael gwybodaeth am y brechlyn, ynghyd â ffurflen ganiatâd bapur neu ddigidol.
- Gall plant a phobl ifanc pedair oed neu hŷn nad ydynt mewn addysg brif ffrwd gael eu brechlyn ffliw yn eu meddygfa neu glinig brechu cymunedol.
- Os yw'ch plentyn o dan ddwy oed, neu'n 16 neu 17 oed, ac mewn mwy o berygl o gymhlethdodau o'r ffliw oherwydd cyflwr iechyd, dylai eu meddygfa eu gwahodd i gael eu brechlyn.

## Wedi colli'r apwyntiad?

Os yw'ch plentyn yn colli eu brechlyn ffliew, siaradwch a'u hymwelydd iechyd (os yw'ch plentyn o dan 5 oed), nyrs ysgol neu feddygfa'r meddyg i gael gwybod am drefniadau lleol ar gyfer cael eu brechlyn ar adeg arall.

RCPCH
Coleg Brenhinol
Pediatreg ac Iechyd Plant
Cymru
*Yn arwain y ffordd ar Iechyd Plant*

## Pa mor effeithiol yw'r brechlyn wrth atal y ffliw?

Er bod effeithiolrwydd y brechlyn ffliw yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu os yw'r brechlyn yn cyd-fynd â'r straen ffliw sy'n cylchredeg, bydd bob amser yn cynnig math o amddiffyniad.

Mae hefyd yn lleihau'n sylweddol pa mor ddifrifol fydd y ffliw os byddwch chi'n mynd yn sâl, gan leihau'r risg o fynd i'r ysbyty, derbyn gofal dwys a hyd yn oed marwolaeth mewn grwpiau. risg uchel fel yr henoed a phlant ifanc.

## Ydi'r brechlyn yn achosi'r ffliw?

Nac ydi. Mae'r firysau ffliw yn y brechlyn i'w chwistrellu wedi'u hanactifadu ac ni allant achosi ffliw. Mae'r brechlyn chwistrelliad trwyn yn cynnwys firysau byw sydd wedi'u gwanhau ac ni allant achosi ffliw.

## Oes yan sgîl-effeithiau i'r brechlyn?

Gall sgîl-effeithiau brechlyn chwistrelliad trwyn gynnwys symptomau tebyg i annwyd, cur pen a theimlo'n flinedig ond nid ffliw yw hyn. Gall brechlyn i'w chwistrellu hefyd achosi sgîl-effeithiau tymheredd uchel neu gorff poenus, ond nid ffliw yw hyn. Mae sgîl-effeithiau'r brechlyn yn llawer ysgafnach na chael y ffliw.


## Os cafodd fy mhlentyn ei frechu y llynedd, oes angen i mi wneud hynny eto?

Oes. Mae angen i'ch plentyn gael ei frechu eto eleni, hyd yn oed os cawsant eu brechu y llynedd. Mae firysau ffliw yn newid bob blwyddyn, felly mae brechlyn newydd yn cael ei greu bob blwyddyn i amddiffyn rhag y straen mwyaf tebygol sy'n cylchredeg.

**Angen mwy o wybodaeth?**

icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/brechiadaur-gaeaf/

# Helpwch i amddiffyn eich plentyn rhag y ffliw y gaeaf hwn



Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Cymru
*Yn arwain y ffordd ar Iechyd Plant*

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.
Corfforir trwy Siarter Frenhinol ac yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr: 1057744 ac yn Yr Alban: SCO38299.
Swyddfa gofrestredig 5-11 Theobalds Road, Llundain WC1X 8SH.
Noddwr Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol.